

Hysbysiad Hawlfraint

Dyma atgoffa staff a myfyrwyr y Brifysgol hwn fod hawlfraint yn gymwys ar y darn hwn ac ar y gwaith y mae'n dod ohono. Gwnaed y Copi Digidol hwn yn unol â thelerau Trwydded yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint, sy'n golygu eich bod yn cael:

- Gweld a lawr lwytho copi
- Argraffu copi

Mae'r Copi Digidol hwn ac unrhyw gopi digidol neu argraffedig a roddir ichi neu a wnaed gennych yn ôl telerau'r Drwydded hon i'w ddefnyddio yng nghyd-destun y modiwl hwn neu'r cwrs astudio hwn. Cewch gadw'r copïau hyn ar ddiwedd y cwrs, ond dim ond at eich defnydd eich hun.

Rhaid i bob copi (gan gynnwys copïau electronig) gynnwys yr Hysbysiad Hawlfraint hwn a rhaid iddynt gael eu dinistrio neu eu dileu os bydd y Brifysgol yn gofyn ichi wneud hynny.

Ac eithrio'r hyn sy'n dderbyniol yn ôl darpariaethau cyfraith hawlfraint, ni cheir copïo, cadw na dosbarthu (gan gynnwys dosbarthu drwy e-bost) heb ganiatâd y sawl sy'n dal yr hawlfraint.

Mae gan yr awdur (ymadrodd sy'n cynnwys arlunydd a'r sawl sy'n creu gweithiau gweledol eraill) hawliau moesol ar y gwaith ac ni chaiff staff na myfyrwyr achosi na chaniatáu i'r gwaith gael ei anffurfio, ei lurgunio na'i addasu fel arall, na'i drin mewn unrhyw fodd difriol arall, a fyddai'n gwneud cam ag anrhydedd neu enw da'r awdur.

Teitl y darn: **Pryd a Gwedd yn y Mabinogion**

Enw'r Awdur: **Davies, S.**

Teitl/Awdur/Argraffiad y llyfr (os yw'n berthnasol): **Ysgrifau Beirniadol XIV. Williams, J.E.C. (golygygg)**

Enw Crëwr Gwaith Gweledol neu

gydnabyddiaeth arall (os yw'n berthnasol):

Manylion cyfnodolyn -

teitl/Cyrol/Blwyddyn (os yw'n berthnasol):

Cyhoeddwr: **Gwasg Gee**

Tudalennau a sganiwyd: **115 - 133**

Cwrs Astudio (Enw a rhif y modiwl): **Y Mabinogi CYCS7015C**

Enw'r sawl a awdurdododd
y sganio:

E. L. Ham

Dyddiad y rhoddwyd awdurdod: 08.08.13

Moodle/Powerpoint

PRYD A GWEDD YN Y MABINOGLION'

gan SIONED DAVIES

ER mor wahanol yw chwedlau'r *Mabinogion* i'w gilydd o safbwynt cynnwys, cefndir a dyddiad, eto i gyd mae rhai nodweddion, megis amryw o'r technegau neu'r dyfeisiau hynny a ddefnyddir i gyflwyno'r naratif, yn gyffredin iddynt oll. Nid honni yr wyf fod y storiwyr neu'r awduron wedi cael addysg ffurfiol, debyg i addysg y beirdd — mae angen llawer mwy o dystiolaeth bendant cyn gallu profi bodolaeth ysgol "gyfarwyddol" yn yr Oesoedd Canol. Ond yr awgrym yw fod awduron yn cydnabod ac yn parchu'r un confensiynau wrth adrodd stori, confensiynau a berthynai'n wreiddiol hwyrach i berfformiad llafar y cyfarwydd, ond a dymherwyd pan drosglwyddwyd y chwedlau i'w ffurf ysgrifenedig. Mae'n wir fod rhai o'r technegau naratif hyn yn fwy datblygedig neu yn fwy amlwg mewn rhai straeon na'i gilydd; eto i gyd, wrth fanylu ar y technegau cawn weld fod modd canfod rhyw elfen sydd yn cydio'r un chwedl ar ddeg gyda'i gilydd, ac felly hwyrach yn cyfiawnhau'r teitl *Mabinogion* ar y cyfan oll.²

Mae techneg y disgrifio yn rhan allweddol o arddull y *Mabinogion* — disgrifiadau o feirch, o lysoedd a chestyll, ac yn naturiol ddigon disgrifiadau o bobl. Yma canolbwyntir ar yr olaf — pryd a gwedd yn y *Mabinogion*. Ar yr olwg gyntaf mae *Pedeir Keinc y Mabinogi* yn sefyll ar wahân i chwedlau eraill y *Mabinogion* o safbwynt disgrifio cymeriadau. Ni cheir defnydd helaeth o ansoddeiriau yn y *Pedeir Keinc*, ac nid oes lle i ddisgrifiadau hir a manwl ynddynt — mae'r pwyslais ar y

¹ Papur a draddodwyd yng Nghyngres Geltaidd Gogledd America, Ottawa, ym mis Mawrth 1986.

² Gweler fy nhraethawd D.Phil., *A Study of Narrative Methods in the Mabinogion* (Rhydychen, 1982).

ferf ac nid ar yr ansoddair. Byr iawn yw'r disgrifiadau o ymddangosiad corfforol y cymeriadau e.e.

Pwyll col. 13' Ac wal y bydynt yn eisted wynt a welynt gwreic ar uarch canwelw mawr aruchel a gwisc eureit llathreit o bali amdanei . . . [Rhiannon]

col. 20 . . . wynt a welynt yn dyuot y mywn guas gwineu mawr teyrneid a guisc o bali amdanaw. [Gwawl]

Math col. 93 mab brasuelyn mawr [Dylan]

Ceir pedair enghraifft yn *Pwyll*, un yn *Branwen* a dwy yn *Math*.⁴ Mae rhai elfennau yn gyffredin i bron pob disgrifiad: cyflwynir y disgrifiadau yn *Pwyll* a *Branwen* gan y gair *gweld*; ni chrybwyllir enw priod y cymeriad (cyfeirir ato fel *marchauc*, *guas*, *gwreic*, *gwr*, *mab*); ceir disgrifiad byr iawn o wisg y cymeriad gan ddefnyddio'r un gystrawen yn *Pwyll*:

gwisc o urethyn . . . amdanaw
gwisc eureit llathreit o bali amdanei
guisc o bali amdanaw
eurwisc amdanei o bali llathreit

a chrybwyllir lliw gwallt a maintioli Gwawl, Dylan, Hychdwn a'r gŵr yn *Branwen*, heb ddefnyddio'r enw *gwallt* o gwbl Felly, er mai ond ychydig ddisgrifiadau byr sydd yn *Pedeir Keinc y Mabinogi*, eto mae'r elfennau cyffredin rhyngddynt yn awgrymu bodolaeth confensiwn arbennig wrth ddisgrifio. Mae'r un math o ddisgrifiadau "syml" i'w gweld trwy holl chwedlau'r *Mabinogion*, gyda'r pwyslais ar liw y gwallt, maintioli, a disgrifiad o wisg e.e.

Gereint Ac ar bont y gwelei gwr gwynllwyd yn eisted a hen dillat adueiledic ymdanaw [col. 393]

Peredur Ac ar lan y llyn yd oed gwr gwynllwyd . . . a gwisc o bali ymdanaw [col. 127]

Breuddwyd
Rhonabwy gwreic veinlas vechan [col. 203]

Ond hollol elfennol yw disgrifiadau byr o'r fath, er eu bod yn cynnwys y manylion angenrheidiol fel petai. Ceir amrywiadau

³ Defnyddir golygiad J. Gwenogvryn Evans o *Llyfr Gwyn Rhydderch* (Caerdydd, 1973).

⁴ Gweler *Pwyll*, col. 2, 5, 13 a 20; *Branwen*, col. 45-46; *Math*, col. 93, 92.

ar y disgrifiad hwn, neu yn hytrach ddatblygiad ohono, pryd y ceir pwyslais ychwanegol ar y wisg a hefyd ar emau a meini gwerthfawr e.e.

Breuddwyd
Maxen gwelei deu vaccwy wineuon ieueinc . . . gwisc y maccwyeit oed pali purdu. a ractaleu o rudeur yn kynhal eu gwallt. A mein gwerthuawr llywychedic yndunt. rudem a gem pob eilwers yndunt ac amherodron mein. Gwintasseu o gordwal newyd am eu traet. a llafneu o rudeur yn eu kayu. [col. 181]

Gereint Ac wynt a welynt . . . a maccwyf gwineu ieuanc eskeirnoyth teyrneid ar arnaw. A chledyf eurdwrn ar glun. A pheis a swrcot o bali ymdanaw. A dwy eskid issel o gordwal am y drayd. a llen o borfor glas ar warthaf hynny. Ac aual eur wrth pob cwrr idi. [col. 389]⁵

Nid oes sôn am emau yn *Gereint*, hefyd *eskid*, nid *gwintas*, yw'r gair a ddefnyddir. Tebycach yw *Owein* i *Breuddwyd Maxen* e.e.

Owein deu was pengrych melyn a ractal eur am pen pob vn o nadunt. A ffeis o bali melyn am pen pob vn o nadunt. a dwy wintas o gordwal newyd am traet pob vn. A guaegeu eur ar vynygleu eu traet yn eu kau. A bwa o askwrn moruil gwedy eu haskellu ac adaned paun . . . [col. 225]⁶

Hynodrwydd *Owein* yn y cyswllt hwn yw fod melyn yn lliw mor bwysig yn y chwedl — digwydd *pali melyn* a *pengrych melyn* bron ym mhob disgrifiad manwl. Ceir yn *Owein* hefyd amrywiaeth helaeth o eiriau sydd yn ymwneud â gwisgoedd. *Peis*, *llen*, *crys* a *swrcot* a geir yn *Gereint*, gydag un cyfeiriad at *cwnsallt*. Yn *Owein* ceir *peis*, *mantell*, *crys*, *llawdyr*, *llen*, *cwnsallt*, *swrcot* a *gwisc*. Ond er y gwahaniaeth mewn pwyslais rhwng un chwedl a'r llall, gwelwn fod dwy nodwedd yn gyffredin i'r holl chwedlau. Yn gyntaf, dilynnir trefn arbennig wrth ddisgrifio: enwir y teip o gymeriad; yna lliw y gwallt a'r oed neu'r maintioli; wedyn ceir ansoddeiriau ychwanegol megis

⁵ Gweler hefyd *Breuddwyd Maxen*, col. 181 — y disgrifiad o'r 'gwr gwynllwyd' a'r 'forwyn'; *Gereint*, col. 386; *Peredur*, col. 120.

⁶ Gweler hefyd *Owein*, col. 225 (y disgrifiad o'r 'gwr pengrych'), col. 226, 240, 243-244.

teyrneid, telediw; yna disgrifir y wisg, ac yn olaf y *gwintas* neu'r *esgit*. Amrwymir leoliad y *ractal* (*a mein yndi* mewn ambell ddisgrifiad) — yn *Owein a Peredur* fe'i ceir ar ôl lliw y gwallt, yn *Breuddwyd Maxen* ar ôl y wisg a'r addurniadau. Amrywir lleoliad y *cleddyf* hefyd — weithiau cyn y wisg, weithiau wedyn. Ni cheir pob cam ym mhob un o'r disgrifiadau, ond eto glynir at y drefn yn rheolaidd.

Yr ail nodwedd a ddaw i'r amlwg yw'r ffaith fod pob disgrifiad wedi ei lunio mewn ffordd arbennig. Oherwydd yr hyn a wna'r awduron oll yn eu disgrifiadau yw cyfuno fformiwlâu, neu yn hytrach unedau fformiwlâig byrion sydd yn cynnwys enw + elfen ddisgrifiadol.⁷ Gwnaethpwyd llawer o waith ar y fformiwlâ gan yr ysgolhaig Milman Parry.⁸ Diffiniodd ef y fformiwlâ yng ngerddi Homer fel:

A group of words which is regularly employed under the same metrical conditions to express a given essential idea.⁹

Datblygu yn elfen yn y cyfansoddiad llafar a wnaeth y fformiwlâ, yn ôl Parry, ac felly mae defnyddio fformiwlâu mewn cerdd yn olion o fynegiant llafar y gerdd honno. Cafwyd beirniadu ar ei syniadau ar lawer cyfrif, a cheisiodd amryw ehangu ei ddiffiniad o fformiwlâ.¹⁰ Beth bynnag am gerddi, yr hyn sydd yn bwysig yn y cyswllt hwn yw i ba raddau y medrwn addasu damcaniaethau Parry a'i debyg i *ryddiaith*. Maentumiodd Kevin O'Nolan nad oes perthynas anhepgor rhwng y fformiwlâ a mydr — mae'r fformiwlâ yn perthyn i fyd y storiwr, p'un ai ydyw'r storiwr hwnnw'n adrodd ei chwedl

⁷ Yr wyf yn gobeithio trafod fformiwlâu yn fanwl mewn erthygl arall. Gweler hefyd *A Study of Narrative Methods*, Pennod IV.

⁸ Milman Parry, *The Making of Homeric Verse: The Collected Papers of Milman Parry*, gol. Adam Parry (Rhydychen, 1971). Datblygwyd ei waith gan A. B. Lord yn *The Singer of Tales* (Cambridge, Mass., 1960).

⁹ Milman Parry, tt. 266-325.

¹⁰ Gweler *Oral Literature and the Formula*, gol. B. A. Stolz a R. S. Shannon (Center for the Coordination of Ancient and Modern Studies: University of Michigan, Ann Arbor, 1976).

mewn barddoniaeth neu mewn rhyddiaith.¹¹ Os derbyniwn hyn, ac at hynny y tueddaf, yna mae modd canfod elfen fformiwlâig yn chwedlau'r *Mabinogion*. Nid dweud yw hyn iddynt gael eu cyfansoddi ar lafar, ond yn hytrach fod yr arddull lafar yn rhan annatod o'u gwneuthuriad. Ceir amrywiaeth o wahanol fformiwlâu neu glymiadau geiriol yn y chwedlau. Un teip yw'r uned sydd yn cynnwys enw + elfen ddisgrifiadol, sef ansoddair neu o + "defnydd". Ac fel y gwelwyd eisoes, dyma'r ddyfais a ddefnyddir yn y *Mabinogion* i ddisgrifio pobl, sef cyfuniadau o'r unedau hyn e.e.

gwisc/eurwisc o bali
gwreic/gwas gwineu
gwr gwynllwyd
ractal eur
esgit/gwintasseu o gordwal newyd/brith¹²

Yn y siartau¹³, dosberthir yr holl unedau fformiwlâig yn fanwl, gan ddangos y cyfatebiaethau rhwng y gwahanol chwedlau. Yn Siart I dosberthir yr unedau yn ôl y teip a ddisgrifir. Yma, enw + ansoddair yw'r uned. Sylwer fod *gŵr* yn digwydd gyda sawl lliw, ond mai *gwineu* a *melyn* yw'r cymeriadau eraill ar y cyfan. Amrywiad ar Siart I yw Siart II, lle dosberthir y teipiau

¹¹ K. O'Nolan, 'Homer and Irish Heroic Narrative', *The Classical Quarterly*, New Series, xix (1969), tt. 1-19. Hefyd O'Nolan, 'Formula in Oral Tradition', yn *Approaches to Oral Tradition*, gol. Robin Thelwall, *Occasional Papers in Linguistics and Language Learning*, Rhif 4 (Ionawr, 1978, adargraff. 1980), tt. 24-34. Ond gweler hefyd E. M. Slotkin, *Evidence for Oral Composition in Early Irish Saga*, Diss. D.Phil., Harvard, 1977. Dyfais fydryddol yw'r fformiwlâ yn ôl Slotkin; yn ei dŷ ef 'if we wish to test passages for formulaic content in a 'meaningful' way we must be able to perceive the poetic line, the metrical unit that serves as a compositional element' (t. 167). Tueddaf i anghytuno â Dr. Slotkin — mae'n siŵr fod modd i'r fformiwlâ datblygu'n annibynnol ar fydr ac ei bod yn rhan anhepgor o'r chwedl ryddiaith.

¹² Cyfeiria Dr. Ann Matonis at y defnydd o *esgid* a *gwintas* yn *Medieval Topics and Rhetoric in the Works of the Cywyddwyr*, Diss. Ph.D., Edinburgh, 1976. tt. 59-60. Wrth drafod cyfeiriad gan Gruffydd Llwyd:

Ef a ennill, pan fynno,
Esgidiau, gwintasau gwaig,
Cordwalfriith.

dywed 'the Welsh *chwedlau* and romances supply evidence that suggests the association of buskins and cordovan leather (either speckled or new) was a literary formula'.

¹³ Hoffwn ddiolch i Mrs. Siân Rogers am ei chymorth wrth deipio'r siartiau.

	GWR	MAB	GWAS	MACCWY	MORWYN	GWREIC	GWRAENC
Pwyll			gwineu mawr teyrneid				
Branwen	melyngoch mawr athrugar mawr						
Math		brasuelyn mawr braswineu telediwr					
Ll a Ll	diruawr y veint						
Owein	1. pengrych melyn yny dewred 2. melyn 3. du 4. du mawr		deu was pengrych melyn		benngrech uelen	velen	
Peredur	1. gwynllwyd 2. gwynllwyd telediwr 3. llwyd mawr 4. gwineu mawr 5. du 6. pengrych coch		1. melyn 2. melyngoch a chul 3. byrrvelyn 4. gwineu 5. gwineu telediwr 6. deu was ieuanc 7. deunaw o weisson culyon cochyon		1. gwineu telediwr 2. tec 3. bengrych du 4. uawrhydyc telediwr	1. gwineu telediwr 2. vawr delediwr 3. ohen 4. ieuanc	
Gereint	1. gwynllwyd 2. gwynllwyd gohen		gwineu hir	gwineu ieuanc eskeirnoyth teyrneid	ieuanc delediwr	oedawc	
Br. Max	gwynllwyd			deu vacwy wineuon ieuanc			
Br Rhon	1. coch goaruol gogrispin 2. garw coch anhegawr 3. balch telediwr 4. pengrych gwineu mawr		1. ieuanc coch go bengrych gineu llygadawc hydwr 2. melyngoch ieuanc 3. gwineu mawr	1. ieuanc pengrych melyn llygatlas 2. a gwallt pybyruelyn ar y benn		veinlas vechan	penngrych melyn

SIART I

SIART II

	MELYN	COCH	MELYNGOCH	DU	GWINEU	GWYNLLWYT
Pwyll					gwas gwineu mawr teyrneid	
Branwen			gwr melyngoch mawr			
Math	mab brasuelyn mawr				mab braswineu telediwr	
Owein	1. gwr melyn 2. gwreic velen 3. deu was pengrych melyn 4. gwr pengrych melyn yny dewred 5. morwyn benngrech uelen			1. gwr du 2. gwr du mawr		
Peredur	1. gwas melyn 2. gwas byrrvelyn	1. deunaw o weisson culyon cochyon 2. gwr pengrych coch	gwas melyngoch a chul	1. gwr du 2. morwyn bengrych du	1. gwas gwineu 2. gwreic wineu delediwr 3. gwas gwineu telediwr 4. morwyn wineu delediwr 5. gwr gwineu mawr	1. gwr gwynllwyd 2. gwr gwynllwyd telediwr 3. gwr llwyd mawr
Gereint					1. maccwyf gwineu ieuanc eskeirnoyth teyrneid 2. gwas gwineu hir	1. gwr gwynllwyd 2. gwr gwynllwyd gohen
Br Max					deu vacwy wineuon ieuanc	gwr gwynllwyd
Br Rhon	1. gwaenc penngrych melyn 2. mackwy ieuanc pengrych melyn llygatlas 3. mackwy a gwallt pybyruelyn ar y benn	1. gwr coch goaruol gogrispin 2. gwr garw coch anhegawr 3. gwas ieuanc coch go bengrych gwineu llygadawc hydwr	gwas melyngoch ieuanc		1. gwas gwineu mawr 2. gwas ieuanc coch go bengrych gwineu llygadawc hydwr 3. gwr pengrych gwineu mawr	

	GWISC	EURWISC	LLEN	CRYS	CAMSE	DILLAT	PEIS . . SWRCOT . . MANTELL	CWNSALLT
Pwyll	1. o urethyn llwyd tei amdanaw 2. eurent llathreit o bali amdanai 3. o bali amdanaw	amdanai o bali llathreit						
C ac OI			borfor pedair ael ac aual rudeur wrth pob ael iti		sidan flamgoch amdanai			
Owein	1. o bali melyn ymdanai (2) 2. o bali purdu ymdanaw 3. purdu o bali ymadanaw		o bali melyn goch y danaw	a llawdyr or biant			1. peis o bali melyn am pen pob vn o nadunt 2. peis a mantell o bali melyn ymdanaw 3. peis a swrcot a mantell o bali melyn (2)	o bali ymdanaw
Peredur	1. o bali ymdanaw 2. hienwisc o bali twll ymdanai	1. o bali ymdanai 2. eurwiscoed ymdanunt						purgoch
Gereint		o bali ymdanai	o borfor glas . . aual eur wrth pob cwrr idi	crys a llenllein ymdanai gohen yn dechreu atueilaw		1. hen dillad adueiledic ymdanaw 2. hen dillat atueiledic o bali amdanai	1. peis a swrcot o bali ymdanaw 2. peis o swrcot o bali cayrawc ymdanaw	
Br Max	gwisc y macwyeit oed pali purdu			crysseu o sidan gwin a oed am y vorwyn			swrcot o pali eurent ymdanai	
Br Rhon	1. o pali coch 2. purdu am bop un onadunt		1. o pali melyn 2. o pali glas ymdanaw 3 o bali gwyn am pob un onadunt 4. o pali kaerawc . . . Ac aual rudeur wrth bop koghyl idi				1. peis o bali melyn am y marchawc/ ymdanaw 2. peis a chapen o pali purdu ymdanaw 3. peis a swrcot o pali melyn ymdanaw	1. ymdanaw o bali kaerawc melyn 2. ymdanaw ef . . . deu hanner gwyn a phurdu

SIART III

SIART IV

	ESKID	GWINTAS	HOSSAN	. . . YN EU KAYU	ARFAU	CLEDYF
Ll a Ll					yn wiscedic o arueu trymyon kadarn	
C ac OI						eurdwrn ar y glun
Owein		1. dwy wintas o gordwal newyd am traet pob vn 2. dwy wintas o gordwal brith am y draet/thraet (4)		1. gwaegau eur ar vynygleu eu traet yn eu kau 2. deu gnaf eur yn eu kau 3. llun llew o eur yn eu kau		
Peredur					rydlyt mawr ymdanaw	
Gereint	dwy eskid issel o gordwal am y draed (2)				1. trwm gloyw ymdanaw 2. brywedic amdawt ymdanaw 3. ystronawl mawr 4. yn gyweir o arueu trwm ystronawl gloyw 5. amdawd ymdanaw 6. trwm rydlyt dielw ystronawl ymdanaw	1. eurdwrn ar glun 2. eurdwrn am y uynwyl
Br Max		gwintasseu o gordwal newyd am eu traet		llafneu o rudeur yn eu kayu		
Br Rhon	dwy esgit o gordwal brith am y traet	1. dwy wintas o gordwal brith 2. dwy wintas o gordwal du am y draet	1. dwy hossan o vreythyn gwyrdd velyn teneu am y traet 2. dwy hossan am y draet o wckran gwyn teneu 3. dwy hossan am y traet o twtneis teneu	1. caeadeu o eur am vynygleu y draet yn eu kau 2. gwaegau eurent arnadunt 3. gwaegau eur arnadunt	1. yn gyweir o arueu trymyon estronawl 2. yn gyweir o arueu trymleisw mawr 3. yn aruawc o arueu brychuelynyon	1. cledyf eurdwrn ar y glun 2. eurdwrn trwm tri chanawl 3. mawr trwm tri chanawl yn y law 4. eurdwrn mawr un min ar glun y gwas 5. Ar glun y mackwy yd oed gledyf hirdwrn trichanawl 6. eurdwrn gloew trichanawl

yn ôl lliw y gwallt. Ychydig o sylw a roddir i liw yn *Pedeir Keinc y Mabinogi*. Yn *Owein* ar y llaw arall *melyn* yw pob cymeriad ond y *gwr du*, a *phengrych melyn* yn aml, fel yn *Breuddwyd Rhonabwy*. Ceir amrywiaeth hynod o liwiau yn *Peredur*, gyda'r ansoddair *teledi* yn digwydd yn fynych ar ôl *gwineu*, ac unwaith ar ôl *gwynllwyd*. *Gwineu* a *gwynllwyd* yw lliwiau *Gereint* a *Breuddwyd Maxen*, a'r *macwyf* yn y ddwy chwedl yn *wineu* a *ieuanc*. Ceir amrywiaeth o liwiau yn *Breuddwyd Rhonabwy* fel yn *Peredur*, ac o leiaf dau ansoddair yn dilyn bob tro. Gwelir felly fod cyfatebiaethau rhwng rhai o'r chwedlau, ond fod y dosbarthiadau "traddodiadol", h.y. y *Pedeir Keinc*, y *Tair Rhamant*, yn gweithredu'n hollol wahanol i'w gilydd o safbwynt y lliwiau.

Dosberthir gwisgoedd yn Siart III, yn ôl y prif fathau o wisgoedd a grybwyllir yn y chwedlau. Mae'r elfen ddisgrifiadol yn wahanol yma — nid enw + ansoddair/ansoddeiriau a geir, ond enw + *o* + defnydd y wisg. Gan amlaf hefyd ceir lliw y defnydd, ynghyd â'r arddodiad *am* e.e.

gwisc o bali melyn ymdaneir

Pali yw'r defnydd bron yn ddi-eithriad, ond digwydd *sidan* yn *Culhwch ac Olwen* a *Breuddwyd Maxen*, a *bliant* yn *Owein*. Yn y *Pedeir Keinc* disgrifir gwisgoedd yn chwedl *Pwyll* yn unig. Yn *Owein* y lliwiau, fel y gwallt, yw *melyn* a *purdu*, gydag un enghraifft o *melyngoch*, a cheir amrywiaeth o ddillad. *Purgoch* yw'r unig liw a grybwyllir yn *Peredur*, ffaith ddiddorol o weld yr amrywiaeth eang o liw gwallt yn y chwedl, a chyfyngir y gwisgoedd i *gwisc*, *eurwisc*, a *cwnsallt*. Ceir mwy o amrywiaeth gwisg eto yn *Gereint*, ond dim ond un lliw — *llen o borfor glas*. [Sylwer fod *llen* yn *Culhwch ac Olwen* a *Gereint* yn borffor, gydag afal aur ym mhob cornel.] *Purdu* a *gwyn* yw'r lliwiau yn *Breuddwyd Maxen*, ond yn *Breuddwyd Rhonabwy* ceir amrywiaeth eang. A *phurdu* a geir ym mhob enghraifft, nid *du*.

Felly, er bod amrywio o chwedl i chwedl o safbwynt lliwiau a'r teip o wisg, yr un yw'r unedau fformiwlâig a ddefnyddir. Mae'r un peth yn wir am Siart IV, lle dosberthir esgidiau ac

arfau. Wrth ddisgrifio *eskid*, *gwintas* a *hossan* mae'r uned fformiwlâig yn debyg i unedau Siart III, h.y.

dwy { eskid o gordwal [ansoddair] am y draed
wintas
dwy hossan o vrethyn [ansoddair] am y draed.

Eskid a ddefnyddir yn *Gereint* a *gwintas* yn *Owein* a *Breuddwyd Maxen*; defnyddir y ddau enw yn *Breuddwyd Rhonabwy*. Yn aml ceir ychwanegiad, sef cyfeiriad at rywbeth yn cau yr esgidiau. Yma eto ceir patrwm arbennig:

gwaegeu }
deu gnaf } eur(eit)/o eur/o rudeur [ar vynygleu eu traet]
llun llew } yn eu kau
llafneu }
caeadeu }

Ceir dau deip o uned fformiwlâig i ddisgrifio arfau:

(a) yn wiscedic o }
yn gyweir o } arueu + ansoddeiriau
yn aruawc o }
(b) arueu + ansoddeiriau *am*

Digwydd yr unedau hyn fynychaf yn *Gereint* a *Breuddwyd Rhonabwy*. Sylwer fod *trum* yn digwydd fel ansoddair mewn chwe enghraifft allan o un ar ddeg. Wrth ddisgrifio *cleddyf*, ceir fod *eurdwrn* yn digwydd bron ym mhob enghraifft, ac fe'i dilynir fel rheol gan

ar y glun/am y uynwgyl/yn y law

Ceir disgrifiadau o'r cleddyf yn *Gereint* a *Breuddwyd Rhonabwy*, ac un enghraifft yn unig yn *Culhwch ac Olwen*.

Dosbarthiad o'r gemau a geir yn y Siart V, ynghyd â'r fformiwlâu i ddisgrifio *barf*. Dim ond yn *Owein* a *Breuddwyd Rhonabwy* y digwydd yr olaf, gyda'r disgrifiad yn *newyd eillaw* yn dilyn dair gwaith. Fel gyda'r esgidiau a'r gwisgoedd, defnyddir *am* + enw ar ôl *gordtorch* a *ractal*. Sylwer hefyd fod pob *gordtorch* a *ractal* yn *eur* neu *rudeur* e.e.

gordtorch eur am y vynywgyl
ractal eur am y phenn

Mae'r ddwy enghraifft o *fodrwy* hefyd naill ai *ar* neu *am* y llaw.

	BARF	GORDTORCH	RACIAL	MERERIT	GEM	MEIN	MODRWY
C ac OI		rudeur am y mynwyl		gwerthuawr	rud gemmeu		
Owein	ay varyf yn newyd eillaw		1. eur am pen bob yn onadunt 2. eur am y phenn				
Peredur			eurcit am y thial			damllywychedic yn y racial	eur vras ar y llaw
Br Max		eur am y vynygi	1. racialeu o rudeur yn kynhal eu gwallt 2. eur yn kynhal y wallt 3. o rudeur am y phen		1. rudem a gem pob eiwers yndunt 2. rudem a gem yn y racial	1. gwerthuawr llywychedic yndunt 2. anherodron mein (2) 3. mein mererit pob eiwers	modrwyen amhyl am y dwy law
Br Rhon	1. ae varyf yn newyd eillaw 2. heb varyf a heb drawsswch arnaw 3. trawsswch 4. goch idaw 5. gwedy eillaw y varyf					1. mawrweithawc gwyrtuawr 2. deu vaen ruddgochyon 3. saffir rinwedawl 4. crisial gloew 5. rinwedawl	

SIART V

Felly, o edrych ar y dystiolaeth gwelir nad yw'r unedau fformiwläig yn union yr un fath bob tro, ond eto mae gormod o gyfatebiaethau rhyngddynt i awgrymu cyd-ddigwyddiad. Mae'n amlwg fod yr awduron yn tynnu oddi ar stoc o glymiadau geiriol neu fformiwlâu a oedd yn gyfarwydd iddynt, gan adeiladu ac amrywio arnynt fel y byddai'r gofyn.¹⁴ Yn y modd hwn gallai'r awdur gadw ei ddisgrifiad yn un byr a syml, neu ei ddatblygu nes y cyrhaedda y ddyfais hon ei ffurf estynedig ar ei heithaf. Un peth sydd yn ein taro ar unwaith wrth ddarllen *Breuddwyd Rhonabwy* yw'r nifer helaeth o ddisgrifiadau manwl a geir yn y chwedl — un ar ddeg i gyd. Nid yw hyn yn dilyn y drefn arferol a welwyd yn chwedlau'r *Mabinogion*, lle ceir ond ychydig ddisgrifiadau manwl ym mhob chwedl. Ar wisg y cymeriad ac ar ei arfau y mae'r pwyslais yn *Breuddwyd Rhonabwy*, ac mae i sawl darlun yr un fframwaith, eithr newidur lliw neu fanylyn hwnt ac yma.

Yn y disgrifiad cyntaf, col. 204, ceir fframwaith arbennig i'r disgrifiad :

- | | |
|-------------------|---|
| (1) Lliw y gwallt | gwreanc penngrych melyn |
| (2) Y farf | ae varyf yn newyd eillaw |
| (3) Y march | y ar varch melyn |
| (4) Gwisg | (a) Coesau'r dyn glas |
| | (b) peis — o bali melyn . . . wedy ry wniaw ac adaued glas. |
| | (c) cledyf eurdwrn
gwein o gordwal newyd
A charrei o ledyr ewic
gwaec o eur |
| | (ch) llenn o pali melyn wedy ry wniaw a sidan glas
godreion y llen las |
| | (d) Cymhariaeth : Ac a oed las o wisc y marchawc ae uarch a oed kynlasset a deil y ffenitwyd ac a oed velyn o honei a oed kynuelynet a blodeu y banadyli. |

¹⁴ Gweler *A Study of Narrative Methods*, Pennod IV.

Ceir amryw o'r unedau fformiwläig hyn yn digwydd mewn chwedlau eraill:

- (1) *penngrych melyn* Ow. deu was pengrych melyn (col. 225)
morwyn benngrech uelen (col. 237)
gwr pengrych melyn (col. 225)
- (2) *ae varyf yn newyd eillaw* Ow. gwr ... ay varyf yn newyd eillaw (col. 225)
- (4) (b) *Peis o bali melyn* Ow. peis o bali melyn (col. 225)
peis a mantell o bali melyn (col. 225)
peis a swrcot a mantell o bali melyn (col. 226)
peis a swrcot a mantell o bali melyn (col. 243-244)
- wedi ry wniaw* Ni cheir cyfeiriad arall
- (4) (c) *cledyf eurdwrn* Ger. cledyf eurdwrn ar glun (col. 389)
cledyf eurdwrn am y uynwgyl (col. 386)
C ac Ol. cledyf eurdwrn ar y glun (col. 455)
- gwein (o gordwal newyd)* Ni cheir cyfeiriad arall at *gwein* ond:
Ger. dwy esskid issel o *gordwal* (col. 386 a 389)
Br Max. gwintasseu o *gordwal newyd* (col. 181)
Ow. dwy wintas o *gordwal newyd* (col. 225)
dwy wintas o *gordwal* brith (col. 225, 237, 240,
- gwaec o eur* Ow. gwaec o eur (col. 225)
- (ch) *llenn o pali melyn* Ow. llen o pali melyngoch (col. 223)
Ll a Ll. llen o pali (col. 196)
- (d) *kyn lasset a deil y ffenitwyd* Ow. Pren mawr a glassach y vric nor ffenitwyd glassaf (col. 230)
- kynuelynet a blodeu y banadyl* C ac Ol. Oed melynach y fenn no blodeu y banadyl (col. 476)
Per. Danhed hiryon melynon melynach no blodeu y banadyl (col. 166)

Felly, fel y dengys Bollard,¹⁵ yr hyn a wna'r awdur yma yw defnyddio "dulliau traddodiadol" ond eu gorliwio. Er bod yr ail ddisgrifiad yn fyrrach (col. 206), cedwir y fframwaith gyda newidiadau yn y lliwiau.

- (1) gwas melyngoch ieuanc
(2) heb varyf a heb drawsswch arnaw gosged dylyedawc
(3) y ar varch mawr
(4) (b) gwisc o pali coch gwedy rywniaw a sidann melyn
(ch) godreon y llen yn velyn
(d) Ac ar a oed velyn ... kynuelynet a blodeu y banadyl gyngochet ar gwaet cochaf or byt

Medrwn ddadlau fod y copiwr wedi gadael allan ran o'r ail ddisgrifiad — y rhan sydd yn crybwyll y llen, oherwydd disgrifir "godreon y llen" heb gyfeirio at y "llen" o gwbl. Unwaith eto mae cyfatebiaethau mewn chwedlau eraill, fel y dengys y siartiau. Ar ddiwedd chwedl *Breuddwyd Rhonabwy*, yn ystod hanes y gwyddbwyll, ceir chwe disgrifiad manwl (col. 212-219). Mae'r tri cyntaf yn debyg i'w gilydd (col. 212-215). Gwelir unedau fformiwläig cyffredin yn y tri:

mackwy ieuanc pengrych melyn
peis a swrcot o pali melyn
dwy wintas o gordwal brith
a chaeadeu o eur am vynygleu y draet yn eu keu
cledyf eurdwrn trwm tri chanawl
llen o pali glas
dwy esgit o gordwal brith am y traet

Mae rhai unedau nad ydynt yn ymddangos yn y chwedlau eraill:

dwy hossan { o vrethyn gwyrdd velyn teneu
o vwckran gwyn teneu
o twtneis teneu

gwedy ygwniaw ac adaued o sidan coch
gwaell eur yny llen

Dim ond mân amrywiadau sydd rhwng y tri disgrifiad o farchogion Arthur hefyd (col. 216-219). Mae'r cymeriadau hyn

¹⁵J. K. Bollard, 'Traddodiad a Dychan yn *Breuddwyd Rhonabwy*', *Llên Cymru*, xiii (1980-81), tt. 155-163.

yn marchogaeth ceffylau, felly ceir cyfeiriadau at yr anifeiliaid hefyd yma.¹⁶ Rhoddir pwyslais ar arfau'r marchogion:

arueu trymyon estronawl
aruev trymleisson mawr
arueu brych uelynyon
cledyf eurdwrn mawr un min
cledyf hir drwm tri chanawl
cledyf eurdwrn gloew trichanawl

eithr daw elfennau hollol newydd i mewn i'r disgrifiadau olaf hyn:

gwein burlas/o ledr coch
gwegys o gordwal ewyrdonic du
o hydgen newydgoch
o eurlin melyn
trostreu goreureit/eur
balawc purdu/o eur melyn
gwaec o asgwrn alifant
o asgwrn moruil
o amrant moruarch purdu
helym eureit/loyw

Ond er newydd-deb y disgrifiadau, mae'r awdur yn glynu at yr uned fformiwlâig, sef enw + elfen ddisgrifiadol, sef ansoddair neu o + "defnydd". Yr awgrym yw fod awdur *Breuddwyd Rhonabwy*, erbyn diwedd ei stori, wedi dechrau pellhau o'r fformiwlâu traddodiadol, a dechrau cyfansoddi o fewn y traddodiad hwnnw, h.y. mae'n ymwybodol ei fod yn gweithio o fewn arddull draddodiadol ond defnyddia'r traddodiad hwnnw'n greadigol. Dyma symud pell iawn oddi wrth y disgrifiadau 'syml' a ganfyddir yn *Pwyll* — dyma begwn eithaf y datblygiad o fewn amred y chwedlau neu'r sagâu a gadwyd i ni.

Gwelwyd, hyd yn hyn, mai ar wisg, arfau ac addurniadau y mae'r pwyslais yn y *Mabinogion*. Heblaw am gyfeiriadau at liw gwallt, cyffredinol iawn yw'r disgrifiadau corfforol ar y cyfan. Ceir un ymgais i ddisgrifio'r corff ei hun yn *Breuddwyd Rhonabwy*.

Disgrifir *gwas gwineu* fel hyn — Ac yngyn wynnet y wyneb ac ascwrn yr eliffant. Ac yn gynduet y aeleu ar muchud. Ac ny

¹⁶ Gobeithiaf drafod y disgrifiadau o feirch mewn man arall.

welai dyn dim oe ardwrn y rwng y venic ae lewys. Gwynnach oed nor alaw, a breisgach oed no mein eskeir milwr. (col. 207)

Ceir cymariaethau tebyg yn *Peredur*:

Disgrifir morwyn, a'i chnawd — gwynach oed no blawt y crissant gwynhaf. y gwallt hitheu ae dwylaw [*Llyfr Coch* 'dwy ael'] duach oedynt nor muchyd. deu vann gochyon vychein yn y grudyeu. cochach oedynt nor dim cochaf. (col. 133-134)

Ceir disgrifiad o ferch ddelfrydol *Peredur*:

a chyffelybu duhet y vran a gwynder yr eira a chochter y gwaet y wallt y wreic uwyhaf a garei a oed kynduhet ar muchyd. ae chnawt y wynder yr eira, a chochter y gwaet yn yr eira gwyn. yr deu van gochyon yg grudyeu y wreic uwyhaf a garei. (col. 140)

ac wrth gwrs ceir y darlun o'r Forwyn Hyll sydd yn barodi ar y delfryd hwn (col. 165-166). Ymddengys fod rhywbeth allanol wedi dylanwadu ar awdur *Peredur*, a'i fod yn ceisio dod â rhyw newydd-deb i'w ddisgrifiadau. Awgrymwyd mai dylanwad llên Iwerddon sydd i'w weld yma,¹⁷ neu ddylanwad ysgolion rhethreg yr Oesoedd Canol.¹⁸ Anodd iawn yw profi'r naill neu'r llall hyd sicrwydd.

Ni soniwyd am *Culhwch ac Olwen* hyd yn hyn. Dim ond dau ddisgrifiad manwl sydd yn y chwedl — y disgrifiad o Gulhwch (col. 545-455) a'r un o Olwen (col. 475-476). Nid yw'r rhain chwaith yn dilyn y patrwm traddodiadol. Ceir rhai o'r unedau fformiwlâig confensiynol yma:

cledyf eurdwrn
llen porfor pedeir ael . . . aual rudeur wrth pob ael iti
mererit gwerthuawr
rud gemmeu

¹⁷ Gweler Glenys Goetinck, *Peredur — A Study of Welsh Tradition in the Grail Legends* (Caerdydd, 1975), tt. 234-235.

¹⁸ Gweler y disgrifiadau o ferched ddelfrydol gan Matthew o Vendôme yn ei *Ars Versificatoria*, a Geoffrey o Vinsauf yn ei *Poetria Nova*. Golygir y ddau waith gan E. Faral yn *Les Arts Poétiques du XII et du XIII Siècle* (Paris, 1958). Gweler hefyd Ann Matonis, 'Nodiadau ar Rethreg y Cywyddwyr; y *descriptio pulchritudinis* a'r Technegau Helaethu', *Y Traeth-odydd*, cxxxiii (1978), tt. 155-167; Gilbert Ruddock, 'Prydferthwch Merch yng Nghywyddau Serch y Bymthegfed Ganrif', *Llên Cymru*, xi (1971), tt. 140-175. Cyhoeddwyd gwaith ar y disgrifiadau yn Chrétien de Troyes gan Alice M. Colby, *The Portrait in Twelfth-Century French Literature* (Genève, 1965).

Ceir cymariaethau yn y disgrifiad o Olwen sydd i'w gweld mewn chwedlau eraill:

melynach . . . no blodeu y banadyl cf. *Per.* col. 166; *Br Rhon.* col. 204, 206¹⁹

Nac golwc hebawc . . . cf. *Br. Rhon.* col. 215 — A llygeit mawr hebogeid

Ond ar y cyfan darnau hollol unigryw yw'r ddau ddisgrifiad. Yn y disgrifiad o Olwen mae rhythm, cyseinedd a chyflythreniad yn amlwg, a cheir hyd yn oed awgrym o odl yn y darn. I bob golwg mae awdur *Culhwch ac Olwen*, yn ei ddau ddisgrifiad, wedi symud o fyd y fformiwlâu i fyd y cyfansoddi bwriadol. Fel y disgrifiadau yn *Breuddwyd Rhonabwy* mae'r ddau ddisgrifiad yn chwarae rhan arbennig yn adeiladwaith y chwedl, gan dynnu sylw atynt eu hunain. Nid felly'r disgrifiadau cyffredin o bryd a gwedd yn y *Mabinogion*.

Ymddengys felly fod techneg arbennig yn y *Mabinogion* i ddisgrifio pobl — techneg a ddefnyddir i ryw raddau ym mhob un o'r chwedlau. Cyfunir unedau fformiwläig byrion (yn cynnwys enw + elfen ddisgrifiadol gan amlaf) i adeiladu'r disgrifiad. Weithiau bydd y disgrifiad yn un syml, gan gynnwys un neu ddwy uned yn unig; weithiau cyfunir llawer i uned. Canolbwyntwyd yn y papur hwn ar y disgrifiadau hynny sydd yn cyfeirio'n arbennig at y gwallt, y wisg, a'r addurniadau. Weithiau ni cheir disgrifio manwl o gwbl, dim ond disgrifio fformiwla sydd yn cynnwys gradd o'r ansoddair i bwysleisio rhinweddau'r cymeriad e.e.

Per. col. 157 A diheu oed ganthaw na welsei eiroet maccwy kytayrneidet ac ef [Y radd gyfartal]

Per. col. 162 Ac ny welsei eiroet morwyn tegach[Y radd gymharol]

Ow. col. 260 Ac yno y gwelas ef pedeir gwraged ar hugeint telediawf or a welas neb eiryet [Y radd gyfartal]²⁰

¹⁹ Gweler hefyd *Mabinogi Math*, col. 100:

Ac yna y kymeryssant wy blodeu y deri. A blodeu y banadyl.
a blodeu yr erwein ac or rei hynny asswynaw yr un uorwyn deccaf
a thelediawf a welas dyn erioed.

Mae'n eithaf posibl mai awgrymu lliw gwallt y ferch yw swyddogaeth banadyl yma.

²⁰ Gweler *A Study of Narrative Methods*, Pennod IV.

Fel y dywedwyd ar y dechrau, ceir yn y *Mabinogion* amryw o dechnegau neu ddyfeisiau a ddefnyddir i gyflwyno'r naratif, a'r rhai hynny'n gyffredin i'r holl chwedlau. Dim ond un o'r technegau hyn a drafodwyd yma. Ond gobeithio fod y drafodaeth fer hon wedi dangos bod gwerth mewn dadansoddi dyfeisiau o'r fath, er mwyn gwerthfawrogi'n llawnach geinder mynegiant rhyddiaith chwedlonol Gymraeg yr Oesoedd Canol.